# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 27 Chwefror 2018

Amser: 09.17 - 10.51

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4524

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David J Rowlands AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC |
| Tystion: | Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Ainsley Bladon, Llywodraeth Cymru<br>Liz Davies, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Stephen Boyce |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-05-801 Rhaid achub y coed a'r tir yng Ngerddi Melin y Rhath a Nant y Rhath cyn iddi fynd yn rhy hwyr

Datganodd Neil McEvoy y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae wedi ymgyrchu ar y mater.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y canlynol:

- CNC i ofyn am:
  - eu hymateb i gynnig y deisebwyr y dylai'r risg bresennol o lifogydd gael ei ailgyfrifo ar ôl cwblhau gwaith Cam 1 a 2;
  - manylion pellach am fethodoleg yr arfarniad opsiynau a gynhaliwyd yn ystod dylunio'r cynllun a chanlyniadau'r arfarniad hwnnw;
  - diweddariad ar y canlyniadau sy'n deillio o drafodaethau diweddar gyda'r gymuned leol; a
  - sut mae cynlluniau yn cael eu blaenoriaethu ar sail Cymru gyfan, yn enwedig gan ystyried barn y gymuned leol.

- Cyngor Caerdydd i ofyn am eu barn ar yr awgrym y gallai dull arall ymwneud â chodi a gostwng uchder lefel y dŵr yn Llyn Parc y Rhath i reoli perygl llifogydd i lawr yr afon.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-522 Asbestos mewn Ysgolion

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a chytunodd i:

- ystyried sylwadau, a dderbyniwyd gan y deisebydd ar ôl i'r papurau gael eu cyhoeddi, mewn cyfarfod yn y dyfodol; ac
- ysgrifennu yn ôl at Ysgrifennydd y Cabinet i fynegi eu barn y dylid cyhoeddi canlyniadau arolwg cyflwr yr ysgol.

### 3.2 P-05-733 Dim gweithredu pellach ar Barthau Perygl Nitradau (NVZ) yng Nghymru o gwbl

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd ac, o gofio cefnogaeth y deisebydd ar gyfer dull Ysgrifennydd y Cabinet, cytunodd i gau'r ddeiseb. Wrth wneud hynny, roeddent yn dymuno diolch i'r deisebydd am ddod â'r ddeiseb ymlaen a'i chyfraniad at eu hystyriaeth o'r mater.

### 3.3 P-05-743 Rhowch Derfyn ar Fasnachu Anifeiliaid Anwes Egsotig yng Nghymru

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig a chytunodd i aros am sylwadau pellach gan y deisebydd cyn ystyried camau pellach ar y ddeiseb.

### 3.4 P-05-778 Amddiffyn Cyllyll Môr ar Draeth Llanfairfechan

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet i ofyn:

  - am ragor o wybodaeth am y graddfeydd amser disgwyliedig o ran y dull datblygu ar gyfer y fethodoleg asesu stoc ac a fydd hynny'n cael ei roi allan i dendr ar wahân;

- gofyn iddi ymateb i bryderon gan y gymuned leol am y diffyg arwyddion amlwg a chlir sy'n ymwneud â chau'r pysgodfeydd, ac a ellir mynd i'r afael â hyn.

### 3.5 P-05-740 Deiseb i Warchod Ein Stryd Fawr

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb o ystyried y camau diweddar ar y mater hwn a diffyg ymateb diweddar gan y deisebydd

### 3.6 P-05-748 Bysiau Ysgol i Blant Ysgol

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd a chytunodd i ysgrifennu at Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU i ofyn a ydynt wedi cynnal adolygiad i ddarparu gwregysau diogelwch ar bob bws sy'n cludo plant a'r angen i bob gyrrwr bws gael ei wirio gan DBS.

### 3.7 P-05-768 Galwad i ddychwelyd darpariaeth Pediatreg, Obstetreg dan arweiniad Ymgynghorydd ac Uned Gofal Arbennig Babanod 24 awr i Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Llwynhelyg

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Cyngor Iechyd Cymuned i ofyn am ei farn ar y materion a godwyd gan y ddeiseb; a
- cheisio rhagor o wybodaeth i wirio'r datganiad a wnaed gan y bwrdd iechyd bod nifer y marw-enedigaethau ar draws ei ardal ers 2015 "yn cymharu'n ffafriol ag unedau Mamolaeth eraill â niferoedd genedigaethau tebyg."

### 3.8 P-05-800 Apêl Brys am Gomisiynydd Cyn-filwyr Cymru i ofalu am iechyd a lles cyn-filwyr sydd wedi'u hanafu, sy'n sâl neu sy'n ddigartref

- Ystyriodd y Pwyllgor sylwadau gan y deisebydd a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i ofyn:
  - am ddiweddariad yn dilyn y cyfarfodydd a gynlluniwyd ar gyfer mis Chwefror;
  - am ragor o fanylion am Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog; ac
  - a fydd cyfle i'r deisebydd ac eraill gyfrannu at drafodaethau ar y pwnc hwn.

## 4 Sesiwn dystiolaeth - P-05-736 Gwneud gwasanaethau iechyd meddwl yn fwy hygyrch

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Liz Davies ac Ainsley Bladon, Llywodraeth Cymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Trafod Sesiynau Tystiolaeth Blaenorol

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r dystiolaeth a dderbyniwyd ar P-05-736 i Wneud Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn fwy Hygyrch a chytunodd i geisio ymateb y deisebydd yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, cyn cytuno ar ba gamau pellach i'w cymryd ar y ddeiseb.